**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 1af Medi2004**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990
# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

COPIAU ATODIAD AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 1 MEDI 2004**
**Eitem: 3**

# MATERION GORFODI

**ENF/2004/00048 Stryd Gamlin, Y Rhyl**

**COPIAU ATODIAD AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**1 Medi 2004**
**EITEM RHIF 4**

# ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# DIWEDDARIAD PENDERFYNIADAU APÊL

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i'r aelodau am benderfyniadau apeliadau diweddar.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r adroddiad ar y cynllun a threfniadau dirprwyo a ystyriwyd yn y Pwyllgor Cynllunio ar 31ain Hydref 2001, ac a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddarach yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 27ain Tachwedd 2001, yn cynnig y dylai crynodeb o benderfyniadau apêl gael eu cyhoeddi'n chwarterol mewn ffurf benodol. Mae'r penderfyniadau a gafwyd yn ystod y cyfnod Ionawr 2004 – Mawrth 2004 yn yr atodiad ynghlwm.

2.2 Ar gais yr Aelodau rydym hefyd wedi cynnwys colofn yn dangos lefel y penderfyniad gwreiddiol (Pwyllgor neu Ddirprwyedig) ac argymhelliad y swyddog.

2.3 Er ein bod yn fodlon ateb cwestiynau ynghylch penderfyniadau apêl yn y Pwyllgor Cynllunio dylech gysylltu gyda Mark Dakeyne neu Ian Weaver cyn y cyfarfod os ydych yn dymuno trafod manylion.

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth i'r Aelodau.

Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor

COPIAU ATODIAD AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**1 MEDI 2004**
**EITEM RHIF 5**

## ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r Aelodau ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â chyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, yn benodol i adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion diweddaraf oddi wrth y perchnogion.

## 2. CEFNDIR

2.1 Caewyd cyn Ysbyty Gogledd Cymru gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ym 1995. Mae'r prif adeilad wedi'i restru'n gradd 2* ac wedi'i ddisgrifio gan Cadw fel yr ysbyty orau a adeiladwyd yn bvwrpasol yng Nghymru. Yn ogystal, ar yr un tiroedd ac yn yr un berchnogaeth mae pedwar adeilad rhestredig gradd 2 arall.

2.2 Tra roedd yr Ysbyty dal ym mherchnogaeth Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru cafwyd nifer o geisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig oddi wrth ddarpar brynwyr ond ni fu'r un yn llwyddiannus. Wrth werthu'r safle yn y diwedd cyflwynodd y perchennog newydd nifer o geisiadau sy'n aros heb eu penderfynu oherwydd diffyg gwybodaeth.

2.3 Fel mae amser wedi mynd heibio aeth yr adeiladau'n gynyddol adfeiliedig gan ddioddef o ladron a fandaliaid. Rhoddwyd awdurdod yn y Pwyllgor Cynllunio ar 4ydd Medi 2002 i'r swyddogion weithredu gorfodaeth yn erbyn y perchennog o dan Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Rhoddwyd y safle a'r adeiladu ar

y farchnad ar unwaith a'u gwerthu i'r perchnogion presennol fis Rhagfyr 2002. Yr un pryd â'r gweithredu gorfodaeth arfaethedig, dechreuodd Sir Ddinbych drafod gydag Ymddiriedolaeth Phoenix Tywysog Cymru, teitl gweithredol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol y Deyrnas Unedig. Mae Phoenix yn ymddiriedolaeth elusennol ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Ei amcan yw achub, adnewyddu a thrwsio adeiladau treftadaeth mawr sydd mewn perygl, er budd eu cymunedau. Mae ganddynt arbenigedd sylweddol o ddelio gydag adeiladau o'r maint a chyda phroblemau cyn Ysbyty Gogledd Cymru.

2.4 Bu'r perchnogion presennol, Acebench Investments Cyf., yn cydweithio ers prynu'r safle gyda phartneriaeth anffurfiol o asiantaethau yn cynnwys, Cyngor Sir Ddinbych, Ymddiriedolaeth Phoenix, y WDA a Cadw. Ar y cyd, comisiynodd y Bartneriaeth astudiaeth dichonoldeb oddi wrth King Sturge Cyf. Cydnabyddai'r astudiaeth bwysigrwydd yr adeiladau rhestredig ond gan dderbyn fod rahid dymchwel rhywfaint. Cydnabyddid hefyd y dylid creu rhywfaint o swyddi ar y safle i gymryd lle'r swyddi a gollwyd adeg cau'r ysbyty. Dangosodd amcangyfrifon ariannol ei bod yn bosibl achub rhan helaeth a'r rhan bwysicaf o'r prif adeilad ynghyd â'r adeiladau rhestredig eraill. Ar y sail hon gwnaed cynigion gan y penseiri'n gweithredu ar ran y perchnogion.

2.5 Ar 12fed Gorffennaf 2004, ymwelodd ei Fawrhydi Tywysog Cymru, yn ei swydd fel Llywydd Ymddiriedolaeth Phoenix, â'r safle a chymerodd y cyfle i lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion diweddaraf. Arddangoswyd y cynigion hyn yn llyfrgell y dref o 12fed Gorffennaf hyd at 25ain Gorffennaf. Roedd gan y cyhoedd gyfle i gyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig mewn llyfr sylwadau neu drwy ysgrifennu neu e-bostio Phillip Ebbrell, Pensaer Cadwraeth y Sir. Cafwyd 38 o ymatebion. O'r rhai a dderbyniwyd mae mwyafrif bychan i weld o blaid y cynigion ond mae'n glir bod dau brif faes o bryder. Y cyntaf yw y dylai'r tai arfaethedig ateb gofynion lleol. Yr ail yw effaith y datblygiad ar wasanaethau lleol megis meddygon, deintyddion, ysgolion a'r rhwydwaith ffyrdd. Mae canlyniadau'r

ymgynghoriad cyhoeddus wedi'u hanfon at y perchnogion a fydd yn talu sylw i'r materion hyn yn eu cynigion.

2.6 Disgwylir y cyflwynir cais caniatâd cynllunio amlinellol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd hwn yn destun ymgynghoriad llawn fel rhan o'r broses cynllunio ac adroddir arno i'r Pwyllgor Cynllunio yn y man.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Fod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**1 MEDI 2004**

**EITEM AGENDA RHIF 6**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWASANAETHAU DIOGELU'R CYHOEDD**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**
**RHEOLIADAU [COED] CYNLLUNIO GWLAD A THREF**
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**TIROEDD YN NHIR MORFA, RHUDDLAN**

**GORCHYMYN CADWRAETH COED RHIF 1/2004**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 I adrodd am gyhoeddi Gorchymyn Cadwraeth Coed ac i benderfynu a ddylai gael ei gadarnhau heb unrhyw ddiwygiadau.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae caniatâd wedi ei roi i ddatblygiad tai ar safle Tir Morfa. Mae'r ardd yn cynnwys nifer fawr o goed sydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i dirlun dwyrain Rhuddlan ac i'r olygfa o gefnffyrdd yr A525 a'r A547. Mae'r Gorchymyn Cadwraeth Coed wedi ei gyhoeddi i ddiogelu'r coed ar y safle a'u cadw fel rhan o'r datblygiad.

2.2 Y cyfiawnhad dros gyhoeddi'r Gorchymyn yw fod gwerth iddynt o safbwynt mwyniant y cyhoedd ac am eu bod dan fygythiad gan fod datblygiad y safle bellach wedi cael ei gymeradwyo.

## 3. GWRTHWYNEBIADAU

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw lythyrau yn mynegi gwrthwynebiad.

## 4. CASGLIAD

4.1 Mae angen y Gorchymyn Cadwraeth Coed er mwyn diogelu'r coed ar safle Tir Morfa a'u gwerth o safbwynt mwyniant.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Y dylid cadarnhau'r Gorchymyn Cadwraeth Coed Rhif 1/2004 Tir Morfa, Rhuddlan, heb unrhyw ddiwygiadau.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**1 Medi 2004**
**EITEM AGENDA RHIF 7**

# ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

## 2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE

**2.1** Mewn ymgynghoriad â'r Adran Cyfreithiol a Gweinyddol, penderfynwyd mai **Dydd Gwener 10 Medi 2004** yw'r dyddiad mwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi ei neilltuo'n ddarpariaethol.

**2.2** Felly fe'ch cynghorir y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal **Dydd Gwener 10 Medi 2004.**

## 3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Bod yr Aelodau yn cytuno i'r Ymweliadau Safle gael eu cynnal Ddydd Gwener 10 Medi 2004.**

PWYLLGOR CYNLLUNIO

1 Medi 2004
EITEM:8

# Penderfyniadau wedi eu gwneud gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd o dan Pwerau Dirprwyedig - 12 feg Mehefin - 31 ain Gorffennaf 2004

## Eitem er gwybodaeth

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes dan bwerau dirprwyedig. Os ydych chi'n dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog fu'n ymwneud â'r cais os gwelwch yn dda.**

## MATHAU O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| CANIATÁU (GRANT) | - caniatáu caniatâd cynllunio |
| GWRTHOD (REFUSE) | - gwrthod pob math o gais |
| CYMERADWYO (APPROVE) | - cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd |
| CANIATÂD (CONSENT) - | caniatáu caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu ganiatâd hysbyseb |
| BARNU (DEEMED) | - nid yw'n ofynnol cael caniatâd hysbyseb |
| DIM GWRTHWYNEBIAD (NO OBJ) | - dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal gadwraeth |
| NID YW'N OFYNNOL (NOT REQ) | - nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig |
| PENDERFYNWYD (DETERMIN) | - penderfynwyd nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth o flaen llaw neu'n cael ei ganiatáu pan benderfynir ar y cais (rhai gweithiau telecom a gwaith amaethyddol penodol) |
| DATBLYGIAD A GANIATEIR (P DEV) | - canfuwyd fod y cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais |
| TYNNWYD YN ÔL (WDN) | - tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd |
| ANNILYS (INVALID) | - canfuwyd fod y cais yn annilys |
| ARDYSTIO (CERTIFY) | - cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithlon |
| G ARDYSTIO (RCERTIFY) | - gwrthodwyd cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol |

COPIAU ATODIAD AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD